# Newidiadau a allai ddigwydd yn Ysgol Llandybie

**Dogfen Ymgynghori ar gyfer Plant a Phobol Ifanc**





sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Helo!

Rydyn ni eisiau dweud wrthych chi am syniad sydd gan y Cyngor ar gyfer **Ysgol Llandybie**.

Rydyn ni hefyd eisiau gwybod beth ydych chi'n ei feddwl, oherwydd mae eich barn yn bwysig iawn.

Bydd eich barn yn helpu'r Cyngor i wneud y penderfyniad terfynol.

## Beth sy'n digwydd?

- Mae'r Cyngor yn helpu ysgolion i wneud yn siŵr bod plant yn hapus, yn ddiogel ac yn dysgu'n dda
- Weithiau, mae'r Cyngor yn edrych ar ysgolion i weld sut gall pethau fod yn well fyth
- Mae'r Cyngor yn meddwl am newid sut mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio yn Ysgol Llandybie
- Rydym am wybod beth ydych chi'n meddwl am y syniad.

### Pam rydyn ni'n meddwl am hyn?

- Gall dysgu Cymraeg pan fyddwch chi'n ifanc eich helpu i fod yn fwy hyderus
- Mae'r Gymraeg yn iaith bwysig yn Sir Gaerfyrddin ac yng Nghymru
- Mae'r Cyngor eisiau helpu plant i:
    - fod yn ddwyieithog a gallu siarad Cymraeg a Saesneg yn hyderus
    - fwynhau siarad Cymraeg yn yr ysgol a gyda ffrindiau

## Beth sy'n digwydd yn Ysgol Llandybie ar hyn o bryd?

- Yn Ysgol Llandybie, mae plant yn dysgu yn bennaf drwy'r Gymraeg
- Mae rhai plant ym Mlynyddoedd 3 i 6 yn gwneud mwy o'u dysgu yn Saesneg
- Mae athrawon yn helpu plant i ddysgu a defnyddio'r ddwy iaith bob dydd

## Beth fydd yn newid?

- **Os ydych chi yn mynd i Ysgol Llandybie ar hyn o bryd, ni fydd unrhyw newid yn yr iaith y'ch dysgir chi ynddi**
- **Bydd plant sy'n dechrau yn y Meithrin ym mis Medi 2027 yn cael eu dysgu yn bennaf drwy'r Gymraeg wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Ym Mlwyddyn 3, bydd plant yn cael eu dysgu Saesneg fel pwnc, gan eu helpu i ddod yn ddwyieithog – yn hyderus yn Gymraeg ac yn Saesneg**

## Pam mae'r Cyngor yn meddwl am hyn?

- Gall dysgu Cymraeg pan fyddwch chi'n ifanc eich helpu i fod yn fwy hyderus, deall mwy a defnyddio'r iaith yn fwy
- Mae'r Gymraeg yn iaith bwysig yn Sir Gaerfyrddin ac yng Nghymru
- Mae'r Cyngor eisiau helpu plant i fod yn ddwyieithog a defnyddio Cymraeg a Saesneg yn yr ysgol, gyda ffrindiau ac yn y gymuned
- Mae'r Cyngor hefyd eisiau i blant gael mwy o ddewisiadau pan fyddan nhw'n hŷn ac i gadw'r Gymraeg yn gryf ar gyfer y dyfodol

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

- Ar hyn o bryd, dim ond syniad yw hwn. Nid oes dim yn newid eto
- Bydd y Cyngor yn gwrando ar beth mae plant, rhieni ac athrawon yn ei ddweud
- Bydd y Cyngor yn ysgrifennu'r syniadau i gyd mewn adroddiad
- Bydd Cynghorwyr Sir Gaerfyrddin yn darllen yr adroddiad
- Bydd y Cynghorwyr yn penderfynu beth fydd yn digwydd nesaf

## Ydych chi eisiau gwybod mwy?

- Mae dogfen hirach ar gyfer rhieni a gofalwyr
- Gallwch ofyn i Mam, Dad, gofalwr neu athro/athrawes i helpu esbonio'r syniad
- Gallwch ofyn cwestiynau os nad ydych yn siwr am rywbeth

## Sut i ddweud wrthym beth rydych yn ei feddwl?

**Mae gennych yr hawl i ddweud eich barn, ac rydym eisiau ei chlywed.**

**Gallwch rannu eich syniadau mewn sawl ffordd. Gallwch ysgrifennu yn Gymraeg neu Saesneg:**

- Siaradwch gyda'ch athro neu oedolyn arall
- Ysgrifennwch eich syniadau neu tynnwch lun
- Llenwch yr holiadur ar-lein (gofynnwch i oedolyn helpu)
- E-bostiwch: cscallandybie@sirgar.gov.uk
- Ysgrifennwch lythyr at: Owain Lloyd, Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP

**Erbyn pryd mae angen i chi roi gwybod i ni?** Rhowch wybod i ni rhwng Medi'r 7fed 2026 a Hydref 20fed 2026

Mae'r wybodaeth ar gael hefyd mewn fformatau eraill gan gynnwys fersiynau gweledol, fersiynau gyda symbolau, Saesneg neu Braille.

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

